

## **Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio  
qwasanaethau'r GIG**

# **Llawdriniaeth twll clo i dynnu'r stumog gyfan neu ran ohoni i drin canser y stumog**

*Mae 'arweiniad  
Techlechyd' NICE  
yn rhoi cyngor i'r  
GIG ar pryd a sut y  
gellir defnyddio  
triniaethau  
llawfeddygol  
newydd mewn arfer  
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth twll clo i dynnu'r stumog gyfan neu ran ohoni yn y GIG i drin pobl sydd â chanser y stumog. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio canser y stumog na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chynghor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â chanser y stumog, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Mae NICE wedi dweud y dylai tîm o feddygon arbenigol sydd â phrofiad o reoli canser y stumog benderfynu pa gleifion sydd fwyaf addas i'r driniaeth hon. Dywedodd NICE hefyd ei bod yn driniaeth gymhleth a dim ond meddygon ag arbenigedd a hyfforddiant arbennig ym maes llawdriniaeth twll clo a ddylai ei chyflawni. Dylai llawfeddygon gynnal y driniaeth ochr yn ochr â llawfeddyg profiadol iawn yn y math hwn o lawfeddygaeth i ddechrau.

## Sylwadau eraill gan NICE

Daw'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth sydd ar gael o Asia, lle mae canser y stumog llawer mwy cyffredin nac yn y DU a lle mae sgrinio'n canfod canserau ar gam cynnar pan y gellir defnyddio llawdriniaeth twll clo yn aml. Yn ogystal, roedd pryder y byddai llai o nodau lymff (meinwe o amgylch y canser) yn cael eu tynnu mewn llawdriniaeth twll clo nac mewn llawdriniaeth agored, ac y byddai'n dychwelyd os byddai'r canser wedi lledaenu i'r nodau lymff. Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth a oedd ar gael yn dangos unrhyw wahaniaeth a dywedodd NICE y byddair rhagor o wybodaeth am ganlyniadau hirdymor yn ddefnyddiol.

Mae NICE yn annog meddygon i anfon gwybodaeth am bawb sy'n cael y driniaeth hon a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i storfa wybodaeth ganolog er mwyn gallu cadarnhau canlyniadau dros gyfnod o amser.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer cancer y stumog.*

*Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

## **Llawdriniaeth twll clo i dynnu'r stumog gyfan neu ran ohoni i drin cancer stumog**

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'stumog-drychiad laparosgopig ar gyfer cancer'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Yn dibynnu ar ble yn y stumog mae'r cancer, mae llawdriniaeth yn cynnwys tynnu rhan o'r stumog neu'r stumog gyfan. Gelwir llawdriniaeth i dynnu rhan o'r stumog yn stumog-drychiad rhannol a gelwir llawdriniaeth i dynnu'r stumog gyfan yn stumog drychiad llawn. Mae'r ddau fath o lawfeddygaeth draddodiadol yn cynnwys llawdriniaeth fawr ac amser gwella hir. Yn y driniaeth hon, cyflawnir y llawdriniaeth gan ddefnyddio llawdriniaeth twll clo yn hytrach na'r driniaeth agored. Caiff y driniaeth hon ei chynnal o dan anesthetig cyffredinol. Gosodir laparosgop (telesgop bach a ddefnyddir i weld y tu mewn i'r corff) a throcarau (pibellau cul y gellir gosod offer llawfeddygol drwyddynt) drwy doriadau bach yn y wal abdomenol. Efallai y bydd angen gwneud toriad mwy ar gyfer rhai mathau o lawdriniaeth. Yna tynnir rhan o'r stumog neu'r stumog gyfan, ynghyd â'r nodau lymff sy'n agos at y cancer.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu ei bod yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

Mae NICE wedi penderfynu hefyd fod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a all manylion eich triniaeth gael eu defnyddio i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

## Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## **Crynodeb o fanteision a risgiau posibl**

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar wyth astudiaeth o'r driniaeth hon.

## **Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?**

Dangosodd astudiaeth fawr o 1294 o gleifion â chanser y stumog ar gam gynnar a gafodd y driniaeth hon fod y gyfradd oroesi heb ganser am bum mlynedd rhwng 86% a 100%, yn dibynnu ar gam y canser. Nododd ail astudiaeth gyda chleifion â chanser mwy datblygedig gyfradd o tua 57%. Edrychodd dwy astudiaeth ar gyfanswm o 68 o gleifion a gafodd y driniaeth hon. Ar ôl ychydig dros flwyddyn, roedd tri chlaf wedi marw am fod y canser wedi dychwelyd (naill ai i'r safle gwreiddiol neu wedi lledaenu i rywle arall).

Mewn tair astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 1438 o gleifion, bu'n rhaid newid y driniaeth twll clo i lawdriniaeth agored mewn 18 claf. Nododd dadansoddiad o astudiaeth yn cynnwys 1611 o gleifion, y cafodd 837 ohonynt y driniaeth twll clo, y gellid tynnu llai o nodau lymff yn y driniaeth twll clod nag mewn llawdriniaeth agored.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd cynghorwyr mai prif ffactorau llwyddiant y driniaeth oedd goroesi am 30 diwrnod ar ôl y driniaeth, cyfraddau goroesi heb ganser nifer y nodau lymff a dynnwyd.

## **Risgiau a phroblemau posibl**

Dangosodd yr astudiaethau nad oedd llawer o wahaniaeth o ran cymhlethdodau rhwng llawdriniaeth twll clo a llawdriniaeth agored, neu fod llai o gymhlethdodau'n gysylltiedig â llawdriniaeth twll clo.

Dangosodd dadansoddiad o astudiaethau yn cynnwys 1611 o gleifion fod gan y 837 claf a gafodd llawdriniaeth twll clo lai o gymhlethdodau'n

gyffredinol. Dangosodd astudiaeth o 102 o gleifion fod ychydig llai o achosion o heintiau'r ysgyfaint ar ôl llawdriniaeth twll clo (1 allan o 44 o gleifion) o gymharu â llawdriniaeth agored (6 allan o 58 o gleifion). Dangosodd astudiaeth o 1611 o gleifion fod llai o achosion o rwystr perfeddol ar ôl llawdriniaeth twll clo na gyda llawdriniaeth agored.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod anafiadau i organau neu bibellau gwaed gerllaw, torthenni gwaed yn y gwythiennau, gwaedu a phroblemau lle y tynnwyd rhan o'r stumog i gyd yn gymhlethdodau posibl. Mewn egwyddor, gallai problemau eraill gynnwys peidio â thynnu digon o nodau lymff, celloedd canser yn lledaenu, problemau perfeddol neu broblemau â'r galon, neu hernia yn safle'r llawdriniaeth.

### **Rhagor o wybodaeth am ganser y stumog**

Gall Galw Iechyd Cymru ar-lein ([www.nhsdirect.wales.nhs.uk](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk)) fod yn fan cychwyn da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i [www.nice.org.uk/aboutguidance](http://www.nice.org.uk/aboutguidance).*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'Stumog-drychiad laparosgopig ar gyfer canser.' Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael hefyd ar [www.nice.org.uk/HTG172](http://www.nice.org.uk/HTG172).*

*Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon o gyhoeddiadau NICE (ffoniwch 0845 003 7783 neu anfonwch neges e-bost i [publications@nice.org.uk](mailto:publications@nice.org.uk) a dyfynnwch y cyfeirnod N1677).*

*Rydym yn annog sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

### **National Institute for Health and Clinical Excellence**

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; [www.nice.org.uk](http://www.nice.org.uk)

ISBN 978-1-4731-7844-1

N1677 Gorffennaf 08

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2008. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.